



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12 Gorffennaf 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Cefais brofiad annymunol yr wythnos ddiwethaf. Wrth gerdded yn droednoeth o un ystafell i'r llall, llwyddais i gicio ffrâm y drws nes yr oeddwn yn dawnsio, a bys bach fy nhroed wedi cael tipyn o glec. Yn naturiol roedd yn boenus, ond blin oeddwn i yn fwy na dim, oherwydd i mi wneud bron yn union yr un peth i fys bach y droed arall rhywbryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf!

Wrth feddwl ymhellach pa wersi oedd angen i mi eu dysgu (peidio bod mor drwsgl oedd cyngor Gwenno!), cofiais fod ffrâm drws yn bwysig yn y Beibl. Yn Exodus 12, ar ffrâm drysau eu tai yr oedd yr Israeliaid i daenellu gwaed yr oen dinam er mwyn iddynt gael eu hachub wrth i farn Duw ymweld â'r Aifft (Exodus 12:13). Ac wrth gwrs mae'n neges berthnasol i Gristnogion heddiw hefyd sef ein bod ni i ymddiried yn Iesu Grist, Oen Duw, a ddaeth i achub ei bobl o'u pechodau. (Mathew 1:21 Beibl.net) Wrth i ni roi'n hyder ym marwolaeth Crist drosom, rydym hefyd yn cyflwyno'n poen, ein hofnau a'n cywilydd i'r Arglwydd, yn ddiogel yn yr wybodaeth fod ganddo ofal amdanom (1 Pedr 5:7). Diolch bod hyd yn oed ffrâm drws yn gallu ein hatgoffa o ddaioni rhyfeddol yr Arglwydd!

A ninnau bellach ym mis Gorffennaf, tybiaf ei bod yn amser i mi roi rhyw syniad i chi o'r diweddaraf ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd, ac yn debygol o ddigwydd i'n capeli yn y dyfodol. Fel y gwyddoch o bosib, mae'r cyfyngiadau ar y defnydd o addoldai yn parhau i raddau helaeth, ac rydym yn disgwyl am fwy o arweiniad gan y llywodraeth yng Nghaerdydd, ac yna cyfarwyddyd enwadol cyn i unrhyw beth newid mewn perthynas ag oedfaon.

Ond o'r canllawiau yr ydym wedi eu derbyn yn barod, petai hawl yn cael ei roi i gynnal oedfaon, mi fyddant yn dra gwahanol i'n hoedfaon arferol. O dan y rheolau newydd, bydd cyfyngiadau pendant ar unrhyw wasanaeth mewn capel: rhaid cadw pellter o 2 fetr, ni fydd canu na chyd-ddarllen yn cael ei ganiatáu a bydd uchafswm ar faint sy'n cael bod yn yr adeilad. Mae'n eithaf diogel dweud ar hyn o bryd felly na fydd ein patrwm yn newid yn y dyfodol agos, yn sicr ddim cyn mis Medi. Ar ben hynny, bydd yn rheidrwydd i ymddiriedolwyr pob capel wneud asesiad risg a newidiadau i'r adeilad/ paratodau glanhau cyn iddynt gael caniatâd i'w defnyddio eto. Golyga hyn oll na fydd modd ailgydio mewn oedfaon ar fyr rybudd. Felly yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddarledu gwasanaethau bob Sul ar y we, a chofiwch gysylltu â Mair os am gael DVD, CD neu gopi papur o'r gwasanaeth neu os gwyddoch am unrhyw un arall fyddai'n gwerthfawrogi hynny.

ADNODDAU ADDOLI

- **Cewch oedfa trwy ddarllediad ar wefan www.youtube.com am 10.30 bob bore Sul.** Mae'r cyswllt i'ch cyfeirio i'r dudalen briodol yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan www.eglwysibroaled.com (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Mae DVD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwyllo a gwrando ar recordiad o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael DVD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae CD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwrando ar recordiad sain o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael CD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae taflen o'r gwasanaeth ar gael i chi ei ddarllen.** Os hoffech dderbyn copi papur o'r gwasanaeth, rhowch wybod i Mair. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwyso '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg. Bydd y cynnwys yn cael ei newid unwaith yr wythnos, fel arfer ar ddydd Iau.
- **Ysgol Sul ar-lein.** Mae Andras a Heledd Iago, Bro Dinbych yn cynnal ysgol Sul ar Zoom am 10.30 ar fore Sul. Ewch i dudalen Facebook Bro Dinbych er mwyn ymuno â nhw.

ADNODDAU DYSGU

- **Ar gyfer rhieni plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael ar ebost neu ar bapur.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.

Cewch adnoddau eraill ar wefan www.gair.cymru neu hwyrach y bydd gwefan www.holi-cymru.org o ddiddordeb i chi.

LLAIS BRO ALED

Er mai un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi cyn mis Medi, plis parhewch i adael i ni wybod am unrhyw un sydd mewn profedigaeth, yn yr ysbyty neu ar achlysur dathliad arbennig.

BUGEILIO

Dim ond mewn amgylchiadau argyfyngus mae ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb yn digwydd bellach. Ond wrth gwrs, mae gofal bugeiliol yn parhau trwy gyfrwng y ffôn. Cofiwch hefyd bod cyd-aelodau, blaenoriaid, Rhodri a Mair yn barod iawn i sgwrsio hefo chi os ydych chi dymuno'n ffonio ni.

Byddwn hefyd yn cynnal cyfarfod 'Gair a Gweddi' dros Zoom am 7.30 ar nos Sul yn ystod mis Gorffennaf, fydd yn gyfle anffurfiol i ni weld, sgwrsio a gweddiö gyda'n gilydd. Os oes gennych ddi-ddordeb ymuno, cysylltwch â mi er mwyn derbyn yr wybodaeth berthnasol.

Rhodri

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth y Parch. John Lewis Jones ddechrau'r wythnos. Bu'n dod yma i bregethu yn yr Ofalaeth ers blynyddoedd lawer a diolchwn i Dduw am ei weinidogaeth inni. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu oll, a chyflwynwn hwy i ofal a thangnefedd yr Arglwydd. Cofiw'n am eraill hefyd sy'n galaru am anwyliaid a gweddiöwn y bydd pob un ohonynt yn profi cariad Duw yn eu hamgylchynu.

Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae David Jones (Henllan) ac anfonwn ein cofion cynhesaf ato. Hyderwn y caiff ofal da yno ac y bydd yn gwella'n fuan. Cofion cynnes atoch chwithau oll hefyd gan obeithio bod y rhai ohonoch fu yn yr ysbyty yn ddiweddar yn parhau i wella, a bod pawb arall yn cadw'n iach.

Llongyfarchiadau i Gwyneth Griffiths (Henllan) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig. Yn yr un modd, llongyfarchiadau i Beti Williams (Llansannan) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig cyn i'r rhifyn nesaf o Llais Bro Aled gael ei gyhoeddi. Dymunwn yn dda i'r ddwy a diolchwn i Dduw amdanynt.

Eglwys Y Ffynnon, Llandysul

Mi fydd y rhai ohonoch a ymunodd yn yr oedfa ddydd Sul diwethaf yn ymwybodol fod Steffan Morris (Llansannan gynt) a'i wraig, Gwenno wedi plannu eglwys Y Ffynnon yn Llandysul ers tua blwyddyn a hanner. Roedd hi'n braf iawn gweld a chlywed Steffan, ac roedd o'n hynod o ddiolchgar am bob cefnogaeth y maen nhw wedi ei dderbyn ac am ein gweddiöu drostynt.

Fe soniodd hefyd am gynllun y maen nhw'n ei lansio ym mis Awst pan fydd Rhys o Landderfel a Megan o Lanberis yn mynd i Landysul i'w cefnogi nhw yn Y Ffynnon a hefyd i gael eu hyfforddi i fod yn genhadon newydd i Gymru. I gael gwybod mwy am y cynllun, gallwch fynd i wefan www.ycynllun.cymru, ac os ydych chi'n dymuno cyfrannu'n ariannol tuag at y cynllun arbennig yma, mae modd i chi wneud hynny ar y wefan, neu mae croeso i chi anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', ac fe wnawn dalu'r arian dros y we ar eich rhan. (Cofiwch nodi 'ycynllun.cymru' ar gefn y siec os ydych chi am wneud hynny.)

Gofynnodd i ni hefyd weddiö dros sefyllfa ariannol Y Ffynnon. Gan mai newydd gychwyn fel eglwys y maen nhw a'u bod yn rhentu adeilad, mae eu sefyllfa ariannol yn peri peth pryder iddyn nhw ynghanol y cyfyngiadau presennol. Felly, plis gweddiöwch drostyn nhw ac os ydych chi mewn sefyllfa i fedru

cyfrannu'n ariannol, mae croeso i chi yma eto i anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', ac fe wnawn dalu'r arian dros y we ar eich rhan. (Cofiwch nodi 'Y Ffynnon, Llandysul' ar gefn y siec os ydych chi am wneud hynny.)

Ond hyd yn oed os na allwch gyfrannu'n ariannol, mi fydden nhw'n gwerthfawrogi eich gweddiöu. Dymunwn, fel gofalaeth, fendith Duw ar eu gwaith.

beibl.net i bobl ifanc

Yn ystod y pythefnos nesaf, gwelir lansio'r trydydd fersiwn o *beibl.net* yn dilyn llwyddiant y fersiwn maint cyffredin a'r un maint print bras. Ers amser bellach, bu Arfon Jones yn gweithio ar fersiwn newydd, gan addasu'r *Good News Youth Bible* i'r Gymraeg. Pris y Beibl newydd hwn yw £19.99, ond mae cynnig arbennig i eglwysy ac ysgolion Sul tan ddiwedd mis Awst, sef £15 y copi. Cynnig dros dro yw hwn, ac yna bydd posib i eglwysy brynu copïau am y pris gostyngol o £18 o hynny ymlaen.



Mae hwn yn Feibl newydd sbon sy'n defnyddio testun poblogaidd *beibl.net* ac a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â phobl ifanc. Mae'n Feibl safonol, clawr caled, sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc, yn yr iaith Gymraeg ac yn llawn gwybodaeth a ffeithiau diddorol. Ceir ynddo hefyd:

- ddolenni i 30 fideo (sydd ar gael ar YouTube) sy'n dadbacio themâu o'r Beibl.
- gannoedd o elfennau rhyngweithiol drwy'r Beibl i gyd sy'n eich annog i gloddio'n ddyfnach
- ofod gwag er mwyn medru ysgrifennu, dwldan a thynnu lluniau ar y dudalen
- gyflwyniad un dudalen i bob llyfr yn y Beibl, sy'n esbonio am beth mae'n sôn a sut mae'n ffitio i mewn i'r stori fawr
- 32 tudalen liw o bethau allweddol i'w dysgu am y Beibl
- help gyda phynciau anodd, a gofod i gadw nodiadau personol.

Os ydych yn dymuno archebu copi am y pris gostyngol o £15, cysylltwch â Mair **erbyn Awst 26ain**, os gwelwch yn dda.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (22^{ain}), os gwelwch yn dda.